

---

# Hygyrchedd Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig

Gwelliannau ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Mehefin 2018

# Gair am y ddogfen hon

---

Mae'r ddogfen hon yn nodi penderfyniad Ofcom i ddiwygio ei God ar Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig. Mae'r ddogfen hefyd (ymysg pethau eraill) yn nodi'r arferion y mae'n rhaid i ddarparwyr Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig eu dilyn er mwyn darparu'r nodweddion a'r wybodaeth sydd eu hangen i alluogi pobl sydd ag anableddau sy'n effeithio ar eu golwg neu ar eu clyw neu'r ddau, i ddefnyddio Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi penderfynu gosod ymarfer i ddarparwyr Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig ymdrechu'n rhesymol i gyflwyno nodweddion hygyrchedd penodol, pan fo'n ymarferol.

Yn yr un modd â dogfennau eraill Ofcom sydd wedi cael eu cyhoeddi, mae'r ymgynghoriad hwn hefyd ar gael ar wefan Ofcom mewn fersiwn (Fformat Dogfen Gludadwy) sy'n cyd-fynd â'r rhan fwyaf o ddarllenwyr sgrin.

Byddwn yn ystyried pob cais rhesymol ar gyfer cyhoeddi'r datganiad hwn mewn fformatau neu ieithoedd eraill. Os hoffech chi wneud cais, gallwch ffonio ein Tîm Cynghori o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09:00 a 17:00 ar 020 7981 3040 neu 0300 123 3333. Os ydych chi'n fyddar neu â nam ar eich lleferydd, gallwch chi ddefnyddio ein rhifau ffôn testun, sef 020 7981 3043 neu 0300 123 2024.

# Cynnwys

---

## Adran

Crynodeb Gweithredol

1

# 1. Crynodeb

## Cyflwyniad

### Beth yw'r broblem?

- 1.1 Mae hi'n anodd i bobl sydd â nam ar eu golwg lywio drwy'r Cyfeirddion Rhaglenni Electronig sy'n rhestru ac yn rhoi mynediad i raglenni teledu. Yn benodol, mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i raglenni sydd ar gael gyda 'disgrifiadau sain'.

### Y Cod Cyfeirddion Rhaglenni Electronig cyfredol

- 1.2 Mae hygyrchedd Cyfeirddion Rhaglenni Electronig yn dibynnu ar ddau ffactor: y data sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwyr y Cyfeirddion Rhaglenni Electronig i dderbynyddion teledu (ee setiau teledu clyfar neu flychau ar ben setiau teledu), a chaledwedd/meddalwedd y derbynyddion teledu hynny.
- 1.3 Mae darparwyr Cyfeirddion Rhaglenni Electronig (ar hyn o bryd Sky, Virgin, YouView, Freesat, Digital UK for Freeview, BT, EE a TalkTalk) yn cael eu trwyddedu gan Ofcom ac mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn yr ymarferion sydd wedi'u nodi yng Nghod Ofcom ar Gyfeirddion Rhaglenni Electronig (y '**Cod Cyfeirddion Rhaglenni Electronig**') wrth ddarparu Cyfeirddion Rhaglenni Electronig.

## Beth ydyn ni'n ei newid?

### Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 1.4 Yn 2017/18 roedden ni wedi ymgynghori ar gynigion i wella hygyrchedd Cyfeirddion Rhaglenni Electronig. At ei gilydd roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn perthyn i ddau gategori:
- roedd unigolion a grwpiau defnyddwyr yn dadlau dros wneud nodweddion hygyrchedd yn orfodol;
  - roedd sefydliadau'r diwydiant, gan gynnwys trwyddedigion Cyfeirddion Rhaglenni Electronig, yn codi pryderon y gallai gosod nodweddion hygyrchedd ychwanegol gorfodol o unrhyw fath gael effaith negyddol ar arloesedd gan eu bod yn teimlo mai'r farchnad agored oedd y lle gorau i fynd â'r datblygiadau hyn ymlaen.

### Penderfyniadau Ofcom

- 1.5 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi diwygio'r Cod Cyfeirddion Rhaglenni Electronig er mwyn i bobl sydd â nam ar eu golwg<sup>1</sup> allu elwa o nodweddion hygyrchedd ychwanegol. Mae hyn yn golygu yn y dyfodol y byddant yn gallu

---

<sup>1</sup> Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r term 'nam ar eu golwg' i gyfeirio at y rheini sy'n rhannol ddall a'r rheini sy'n gwbl ddall.

defnyddio Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn yr un ffordd ag y mae pobl heb anableddau'n eu defnyddio.

- 1.6 Mae'r diwygiadau i'r Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn gosod ymarfer newydd i ddarparwyr Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig ymdrechu'n rhesymol i sicrhau, i'r graddau sy'n ymarferol, bod eu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn cynnwys cyfleusterau i ddefnyddwyr wneud y canlynol i gyd, neu gymaint ag sy'n bosibl, neu gyflwyno nodweddion hygrychedd a fyddai'r un mor effeithiol:
- a) darparu testun sydd ei angen i lywio drwy'r Cyfeirydd Rhaglenni Electronig a darparu gwybodaeth am sianeli a rhaglenni sydd yn y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig ar lafar (swyddogaeth '**testun-i-lais**') neu '**TTS**');
  - b) amlygu neu lunio rhestr ar wahân o'r rhaglenni sydd â disgrifiad sain ac iaith arwyddion (swyddogaeth '**hidlo neu amlygu**');
  - c) addasu sut caiff yr wybodaeth ei dangos ar y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig fel bod modd ei wneud yn fwy, neu wneud y testun yn fwy (swyddogaeth '**chwyddo**');
  - d) newid rhwng arddangos diofyn ac arddangos 'cyferbyniad uchel' ('**arddangos cyferbyniad uchel**').
- 1.7 Rydym yn caniatáu i ddefnyddwyr gyflwyno nodweddion 'sydd yr un mor effeithiol, er mwyn caniatáu ar gyfer arloesi nawr ac yn y dyfodol yn y dechnoleg ac yn newisiadau defnyddwyr. Rydym yn credu y dylai darparwyr allu defnyddio dulliau arloesol i gynyddu hygrychedd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw nodweddion amgen wir fod mor effeithiol i ddefnyddwyr â'r rheini a bennir uchod.
- 1.8 Bydd y newidiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud i'r Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn dod i rym heddiw. Fodd bynnag, bydd yr arfer o ddarparu'r nodweddion hygrychedd newydd (neu gyflwyno mesurau sydd yr un mor effeithiol) yn berthnasol i Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig sydd ar gael, drwy'r holl dderbynyddion teledu i ddefnyddwyr, gan ddechrau datblygu ar ôl **27 Gorffennaf 2018** (hy mis ar ôl cyhoeddi'r datganiad yma) ac unrhyw fodelau dilynol.
- 1.9 Bydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu cefnogi gan arferion adrodd cryfach. Byddwn yn mynnu bod darparwyr Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar hygrychedd eu Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad hwn i fonitro cynnydd a rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i ddefnyddwyr am hygrychedd y Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sydd ar gael. Bydd angen cyflwyno'r adroddiadau blynyddol cyntaf o dan y rheolau diwygiedig erbyn **30 Tachwedd 2018**.
- 1.10 Mae ein diwygiadau'n ystyried gallu'r diwydiant i ddatblygu ffyrdd arloesol eraill o ddarparu nodweddion hygrychedd ar ben y rheini sydd wedi cael eu nodi uchod. Y nod ydy rhoi'r hyblygrwydd i'r datblygiadau hyn gael eu rhoi ar waith a byddwn yn mynnu bod darparwyr Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn cynnwys y datblygiadau hyn yn eu hadroddiad blynyddol i ni.

